

NODIADAU CANLLAW

Grant dewisol yw hwn a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i roi cymorth ariannol i unigolion sy'n wynebu rhwystrau rhag dechrau busnes yng Nghymru.

DIBEN Y GRANT

Diben y grant yw galluogi unigolion sy'n economaidd anweithgar a di-waith i ddechrau busnes yng Nghymru, a bydd yn targedu unigolion sy'n wynebu rhwystrau rhag dechrau busnes a'r farchnad gyflogaeth yn arbennig. Bydd y grant hwn yn ychwanegiad i gefnogaeth arall sydd ar gael i fusnesau newydd drwy Busnes Cymru.

GRANT I DDARPARWYR GOFAL PLANT NEWYDD

Mae Busnes Cymru yn cynnig cymorth wedi'i deilwra i fusnesau newydd, micro, bach a chanolig yng Nghymru. Gall y gwasanaeth eich helpu i ddeall beth yw eich anghenion a rhannu pecynnau cymorth wedi'u teilwra, gan gynnwys mynediad at offer ar-lein, gweithdai a gweminarau, cynghorwyr arbenigol a chyffredinol, a mentoriaid. Yn ogystal â gweithio gyda chi ar ddiagnostig ar gyfer busnes a chynllun gweithredu, gall ein cynghorwyr hefyd gynnig cyngor ariannol wedi'i dargedu, a mynediad at gymorth arall y gallwch elwa ohono.

I gael gwybod mwy ewch i <https://businesswales.gov.wales/starting-up/cy>

PWY ALL YMGEISIO?

Mae grant **hyd at £2,000** ar gael i helpu unigolion i oresgyn rhwystrau rhag dechrau busnes. Mae ceisiadau ar agor i unigolion sy'n economaidd anweithgar a di-waith.

Wrth ddyrannu cyllid, bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r unigolion hynny sy'n wynebu rhwystrau rhag dechrau busnes ac sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad gyflogaeth.

Meini Prawf Cymhwysra

I wneud cais, dylech fod yn:

- Economaidd anweithgar neu'n ddi-waith
- Eisiau dechrau busnes hunangyflogedig yng Nghymru

Rydym yn annog ceisiadau gan unigolion:

- Anabl, sydd â chyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar waith
- Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig
- Menywod
- Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg neu hyfforddiant (NEETS) rhwng 18-24 oed **neu** unigolyn sydd wedi gadael y Coleg neu'r Brifysgol ers 2019 ac sydd ar contract o lai na 20 awr yr wythnos.

Gall fod gofyn i ymgeiswyr brofi nad ydynt yn gweithio a'u bod yn economaidd anweithgar, yn ddi-waith neu ddim mewn addysg na hyfforddiant.

Gwybodaeth Berthnasol ynghylch y Grant

Bwriad y grant a chymorth busnes perthnasol yw helpu'r unigolion hynny sy'n wynebu rhwystrau rhag dechrau busnes ac sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad gyflogaeth.

- Bydd angen i ymgeiswyr gwblhau dogfen mynegi diddordeb (EOI). Mae hon ar gael ar dudalen we'r Grant Rhwystrau rhag Dechrau <https://businesswales.gov.wales/cy/grant-rhwystrau-rhag-dechrau> ar ôl ei gwblhau, rhaid dychwelyd y ddogfen mynegi diddordeb i BarriersSUG@BusinessWales.org
- Ar ôl derbyn yr EOI, bydd tîm gweinyddol Busnes Cymru'n cysylltu â'r ymgeisydd a bydd yn cael ei gofrestru gyda Gwasanaeth Cyngor Busnes Cymru.
- Gall ymgeiswyr gael gafael ar gymorth ymlaen llaw drwy deulu Busnes Cymru, fel Busnes Cymru / Syniadau Mawr Cymru / Hybiau Menter Rhanbarthol.
- Bydd ymgeiswyr yn cael cynnig gweminarau meithrin hyder a chymorth un-i-un ychwanegol cyn dechrau arni, er mwyn lleihau'r rhwystrau rhag mynediad i'r rhai sydd bellaf o'r farchnad dechrau busnes a chyflogaeth.
- Yna bydd cyngorydd Busnes Cymru yn cael ei bennu i'r ymgeisydd, a fydd yn helpu i gwblhau'r ffurflen gais a chael gafael ar gymorth ychwanegol wrth ddechrau busnes.
- Rhaid i ymgeiswyr ddatgan nad oes ganddynt unrhyw ffynonellau arian eraill (neu gyfyngedig) neu nad ydynt yn gallu cael mynediad at unrhyw gronfeydd dechrau busnes eraill neu eu bod ond yn medru sicrhau cyllid rhannol i gefnogi costau sefydlu neu redeg y busnes.
- Rhaid cyflwyno cais llawn ac achos busnes ategol o leiaf bythefnos **cyn** dechrau'r busnes. Ni ellir dyfarnu grantiau ar ôl i'r busnes ddechrau masnachu.
- Bwriad y grant yw cynorthwyo unigolion yn ystod y cyfnod cyn dechrau arni i sefydlu busnes drwy gyfrannu tuag at gostau hanfodol dechrau'r busnes (rhaid cynnwys manylion y costau yn y ffurflen gais).
- Mae'r grant ar gyfer gwariant refeniw yn unig. Mae hyn yn golygu mai dim ond gwariant a fydd yn ymddangos yn eich Cyfrif Elw a Cholled sy'n gymwys.

Gall gwariant cymwys gynnwys

- Cymorth arbenigol - ffioedd ymgynghori, TGCh, allforio, marchnata, methodoleg ddarvoudus etc.
- Cyngor proffesiynol/cyfreithiol
- Costau hyfforddiant
- Offer (hyd at £1,000 mewn gwerth) - Pan nad yw'n cael ei ystyried yn gost cyfalaf drwy ymddangos ar fantolen y cwmni
- Costau gweithredu - yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgaredd busnes
- Noder, nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr.
- **Noder:** Nid bwriad y grant yw cefnogi lluniadau personol o'r busnes.

- Mae'r ymgeisydd yn bwriadu gwneud y busnes yn brif ffynhonnell incwm a / neu gyflogaeth, neu'n gweithio tuag at hynny.
- Bydd gofyn i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth bod y cwmni wedi dechrau masnachu, e.e. copi o'r anfoneb gyntaf a chymryd camau i gofrestru'r busnes ar gyfer ei endid dewisol (e.e. statws cwmni cyfyngedig / hunangyflogaeth gyda CThem). Cesglir hyn ar ôl y dyddiad cychwyn.
- Derbynnir un cais fesul busnes yn unig.
- Rhaid i'r unigolyn sy'n gwneud y cais am y grant gyflwyno'r cais, yn hytrach nag asiantau sy'n gweithredu ar eu rhan.
- Bydd angen i ymgeiswyr ddatgan unrhyw gymorth ariannol arall a chyfredol gan y Llywodraeth neu Awdurdodau Lleol dros y 3 blynedd ariannol diwethaf. Nid yw'r unigolion hynny sy'n derbyn y Gronfa Entrepreneuriaeth Canol Tref yn gymwys ar gyfer y grant Rhwystrau rhag Dechrau.
- Fel unigolion sy'n derbyn buddsoddiad cyhoeddus, gofynnir i ymgeiswyr adolygu eu harferion busnes o ran cynaliadwyedd a chydraddoldeb. Ceir manylion am hyn yn yr [Addewid Twf Gwyrdd](#) a'r [Addewid Cydraddoldeb](#).

Categoriâu Busnes nad ydynt wedi'u Cefnogi

Busnesau sy'n gysylltiedig â hyrwyddo safbwyntiau crefyddol neu wleidyddol penodol; gamblo; pornograffi; cynnig gwasanaethau rhywiol o unrhyw fath; unrhyw weithgareddau anghyfreithlon; a busnes arall y bernir ei fod yn 'newydd a dadleuol' gan Lywodraeth Cymru.

FAINT ALLWCH CHI YMGEISIO AMDANO?

Mae grant **hyd at** £2,000 ar gael fesul busnes (caniateir un cais fesul busnes yn unig).

Mae angen i ymgeiswyr gadarnhau nad oes ganddynt unrhyw ffynonellau ariannu neu ffynonellau cyllid cyfyngedig heb y cymorth grant hwn i'w helpu i ddechrau eu busnes.

Bydd Busnes Cymru yn arfer disgrisiwn wrth ddyfarnu'r grant yn seiliedig ar y dystiolaeth o angen a amlinellir yn yr achos busnes a'r cais. Os caiff y cais ei gymeradwyo, gwneir taliad i gefnogi costau refeniw cyn i'r busnes ddechrau masnachu (ymlaen llaw).

Nid ydym yn rhagweld y bydd pob ymgeisydd yn gwneud cais am y gwerth mwyaf. Dim ond am faint o arian sydd ei angen i ddechrau eu busnes y dylai ymgeiswyr wneud cais. Bydd hyn yn ein galluogi i gefnogi cynifer o unigolion â phosibl i ddechrau busnes drwy'r grant hwn.

SUT I WNEUD CAIS

- Rhaid i ymgeiswyr gwblhau'r Mynegiant o Ddiddordeb (EOI) a'i gyflwyno drwy'r blwch post BarriersSUG@BusinessWales.org. Ar ôl i ni dderbyn a gwirio'r EOI, bydd un o weinyddwyr Busnes Cymru yn cysylltu â chi i'ch cofrestru ar raglen Busnes Cymru.

- Mae disgwyl i'r holl ymgeiswyr gymryd rhan yn y cymorth paratoadol ymlaen llaw a chwblhau achos busnes gyda'ch cynghorydd busnes. Ar ôl i chi gwblhau'r cymorth paratoadol ymlaen llaw, byddwch yn cael ffurflen gais am grant.
- Rhaid anfon y ffurflen gais wedi'i chwblhau ynghyd ag achos busnes dros e-bost at BarriersSUG@BusinessWales.org er mwyn cynnal asesiad a gwiriadau diwydrwydd dyladwy.
- Ein nod yw ateb a chydabod y ffaith ein bod wedi derbyn y cais o fewn 5 diwrnod gwaith.
- Mae'r Grant Rhwystrau rhag Dechrau ar agor i EOI o 13 Rhagfyr 2021. Bydd ffurflenni cais ar gael o 03 Ionawr 2022, a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ceisiadau yw 24 Mawrth 2022. Fodd bynnag, os caiff cronfeydd eu defnyddio cyn y dyddiad hwn, bydd y cynllun yn cau.
- Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau cyn gwneud cais, neu os oes gennych chi unrhyw bryderon na fydddech yn medru cymryd rhan yn y broses ymgeisio neu gynllunio busnes oherwydd rhesymau meddygol/technegol/gofalu, cysylltwch â Busnes Cymru er mwyn i ni allu trafod sut allwn ni eich helpu.

CANLLAWIAU AR GWBLHAU'R FFURFLEN GAIS

Adran 1 - Gwybodaeth amdanoch Chi

Mae'r rhan hon yn gofyn am wybodaeth amdanoch chi, yr 'ymgeisydd'. Sicrhewch fod yr holl wybodaeth yn gywir.

Tystiolaeth sydd ei Hangen – byddwn angen 2 brawf adnabod i ddilysu eich hunaniaeth:

- ✓ Pasbort/Trwydded Yrru/ID Ffotograffig
- ✓ Tystiolaeth o'ch cyfeiriad wedi'i ddyddio o fewn y tri mis diwethaf.

Adran 2 – Eich Rhwystrau

Nodwch, yn eich barn chi, pa grŵp demograffeg sy'n eich cynrychioli chi, ac amlinellwch eich amgylchiadau presennol ac unrhyw heriau allwch chi fod wedi'u hwynebu ar hyd y ffordd hyd yn hyn. Cwblhewch yr adran hon mewn cymaint o fanylder â phosibl, fel ein bod yn medru deall pam bod angen cymorth y gronfa hon arnoch chi.

Adran 3 – Gwybodaeth am eich Busnes Newydd Arfaethedig

Nodwch fanylion eich busnes newydd - enw arfaethedig, math o fusnes a'r dyddiad rydych yn bwriadu dechrau arni. Bydd gofyn i chi hefyd anfon eich achos busnes gyda'ch ffurflen gais wedi'i chwblhau.

Adran 4 - Cyllid

Rhowch wybod i ni faint o gyllid rydych chi'n gwneud cais amdano. Gallwch wneud cais am hyd at £2,000. Mae angen i ni wybod beth rydych yn bwriadu defnyddio'r grant ar ei gyfer a bydd angen i chi ddadansoddi'r hyn sydd ei angen, y costau a pham mae angen yr 'eitem' benodol hon. Os oes mwy na 5 eitem, mae gofyn i chi eu grwpio'n briodol.

Hoffem wybod hefyd a ydych yn bwriadu cyflogi unrhyw staff ac os felly, manylion y mathau o rolau.

Mae angen i ni asesu pa effaith fydd y grant hwn yn ei gael, a pha wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud i'ch helpu i ddechrau eich busnes.

Adran 5 - Manylion Banc

Bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i wneud y taliad Grant i chi. Sicrhewch eich bod yn cyflwyno'r manylion banc cywir. [Bydd manylion banc anghywir yn golygu na fydd y grant yn cael ei dalu, neu bydd oedi wrth dalu'r grant.](#)

Adran 6 – Cynllun Symiau Bach o Gymorth Ariannol (SAFA)

Mae'r Grant Rhwystrau rhag Dechrau yn cael ei ddyfarnu dan y cynllun Symiau Bach o Gymorth Ariannol (SAFA), ac felly rydym yn gofyn i chi gyflwyno gwybodaeth am unrhyw gymorth de minimis rydych wedi'i derbyn yn flwyddyn ariannol bresennol a'r ddwy flynedd flaenorol.

Rhaid i chi hefyd gynnig gwybodaeth am unrhyw gyllid rydych wedi'i dderbyn dan "Symiau Bach o Gymorth Ariannol (SAFA)" yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol a'r 2 flynedd flaenorol.

Os nad ydych wedi derbyn unrhyw fath o gymorth na chyllid – dylech gynnwys y gair DIM. Mae'n bwysig nad yw'r adran hon yn cael ei gadael yn wag.

Mae gwybodaeth ynghylch Canllawiau Rheoli Cymhorthdal Llywodraeth y DU (gan gynnwys SAFA) ar gael yn [Canllawiau ar ymrwymadau rheoli cymhorthdal rhwyngwladol y DU - GOV.UK \(www.gov.uk\)](http://www.gov.uk)

ADRAN 7 - Datganiad

Mae'n hynod bwysig eich bod wedi darllen y ddogfen ganllaw hon yn ofalus ac eich bod yn deall y telerau a'r amodau sy'n gysylltiedig â'r cais hwn am Grant.

Os ydych chi'n cytuno i'r telerau ac amodau o fewn y ddogfen, ac yn gallu cadarnhau bod yr wybodaeth a ddarperir yn y cais yn wir ac yn gywir, yna rhaid i chi dicio'r blwch, nodi eich llofnod a'r dyddiad a chyflwyno'r cais drwy e-bost at y cyfeiriad canlynol BarriersSUG@BusinessWales.org.

BETH SY'N DIGWYDD AR ÔL I'R CAIS GAEL EI DDERBYN?

Ar ôl i ni dderbyn eich ffurflen gais, bydd ein tîm yn cydnabod ein bod wedi derbyn eich cais ac yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy.

Rhaid i bob cais gael cefnogaeth cynghorydd Busnes Cymru (i gadarnhau bod ymgysylltiad paratoadol ymlaen llaw wedi'i gynnal, bod y syniad busnes yn ddichonadwy ac yn gynaliadwy, a bod yr holl gostau refeniw yn briodol ac yn gymwys ar gyfer y syniad busnes)

Rydym yn ceisio prosesu ceisiadau grant o fewn 10 diwrnod gwaith o'u cydnabod. Bydd penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau yn cael eu gwneud ar sail yr wybodaeth a ddarperir yn y ffurflen gais, tystiolaeth berthnasol (achos busnes/dadansoddiad o gostau refeniw a chefnogaeth cynghorydd) ac unrhyw wiriadau diwydrwydd dyladwy ychwanegol.

Os caiff eich cais ei gymeradwyo, byddwch yn derbyn llythyr cymeradwyo grant drwy e-bost yn rhoi gwybod i chi am ddyfarniad y grant a dolen at delerau ac amodau eich adolygiad.

Rhaid i chi ymateb i'r cynnig hwn o fewn saith diwrnod gwaith, neu bydd y cynnig grant yn cael ei dynnu'n ôl.

Rhaid i ymgeiswyr gadarnhau eu bod wedi derbyn y llythyr cynnig dros e-bost. Ar ôl ei dderbyn a'i gydnabod, ein nod yw talu'r grant i'r cyfrif banc enwebedig o fewn 10 diwrnod gwaith.

Fel rhan o delerau ac amodau eich cais, byddwch yn cytuno i barhau i dderbyn cymorth ar ôl dechrau arni. Bydd 2 ryngweithiad ar ôl dechrau arni pan fyddwn yn gofyn am dystiolaeth bod y cwmni wedi dechrau masnachu, e.e. copi o'r anfoneb gyntaf, tystiolaeth o ddatganiad cyfrif banc busnes a chymryd camau i gofrestru'r busnes ar gyfer ei endid dewisol (e.e. statws cwmni cyfyngedig / hunangyflogaeth gyda CThEM).

Os nad yw eich cais yn llwyddiannus, byddwch yn cael e-bost yn amlinellu'r rheswm/rhesymau pam eich bod wedi'ch gwrthod a bydd eich cynghorydd busnes yn trafod opsiynau cymorth eraill sydd ar gael i chi wrth i chi ddechrau busnes. Grant dewisol yw hwn ac nid oes proses apelio.

AD-DALU GRANT

Dylai ymgeiswyr nodi bod Llywodraeth Cymru neu ei chontractwyr a benodir yn gallu gofyn am ad-daliad o'r grant yn llawn neu ran ohono os na ddefnyddir y cyllid at y dibenion a nodir yn y ffurflen gais neu os nad yw'r telerau ac amodau'n cael eu bodloni. Mae'r ymgeisydd yn ymrwymo i gytundeb o'r fath a gellir gorfodi hyn drwy fynnu prawf o wariant ar ôl dyfarnu'r grant.

TELERAU AC AMODAU AR GYFER YMGEISWYR

1. Darperir y Grant hwn yn ôl disgrisiwn llwyr Llywodraeth Cymru.
2. Gall Gweinidogion Cymru neu ei chontractwyr atal neu adennill y cyllid dan rai amgylchiadau.
3. Gwneir taliadau drwy drosglwyddiad banc i'ch cyfrif banc enwebedig ar ôl casglu digon o dystiolaeth.
4. Rhaid i'r Cwmni sicrhau ei fod, at ddibenion y Prosiect, yn cydymffurfio â rheolau cymorth Gwladwriaethol y Comisiwn Ewropeaidd a/neu Ganllawiau Rheoli Cymhorthdal Llywodraeth y DU. Mae rhagor o fanylion am y rheolau cymorth Gwladwriaethol penodol perthnasol ar gael [yma](#). Mae rhagor o fanylion am y Canllawiau Rheoli Cymhorthdal penodol Llywodraeth y DU ar gael [yma](#). Mae'r Cwmni'n gyfrifol am sicrhau bod y grant yn cael ei ddarparu yn unol â'r meini prawf cymorth Gwladwriaethol y dyfernir yr arian arnynt.
- 5a. Er mwyn atal amhariad ar gystadleuaeth, mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn gosod cyfyngiadau ar faint o gymorth y gellir ei roi i sefydliadau sy'n gweithredu mewn marchnad gystadleuol.
Mae'r cymorth sy'n cael ei gynnig gan Busnes Cymru yn gymorth de minimis dan Reoliad de Minimis 1407/2013 fel y'i cyhoeddwyd yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd ar 24 Rhagfyr 2013. Mae uchafswm o €200,000 (€100,000 ar gyfer mentrau yn y sector trafniadaeth ffyrdd) ar gyfer yr holl gymorth de minimis a ddarperir i unrhyw un sefydliad dros gyfnod o dair blynedd ariannol (h.y. y flwyddyn ariannol bresennol a'r ddwy flynedd ariannol flaenorol). Bydd unrhyw gymorth de minimis a ddarperir i chi dan y gwasanaeth hwn yn berthnasol. Drwy gytuno i'r cyllid hwn rydych yn ardystio y byddwch yn aros o fewn y terfynau hyn.
- 5b. Cymorth a gynigir dan 'Symiau Bach o Gymorth Ariannol' (SAFA) fel y'i diffinnir gan Erthygl 364 paragraff 4 o Gytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU a'r UE. Mae hyn yn caniatáu darparu hyd at 325,000 o Hawliau Lluniadu Arbennig, neu tua £330,000 i un cyfranogwr economaidd dros unrhyw gyfnod o dair blynedd ariannol. Mae'r trothwy hwn yn cynnwys unrhyw gymorth SAFA neu gymorth de minimis yr UE a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod perthnasol, o bob ffynhonnell.
6. Noder y gallai gwybodaeth a gedwir gan Weinidogion Cymru gael ei datgelu dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Chod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth Llywodraeth Cymru. Yn ymarferol, ni fyddwn yn datgelu nac yn rhyddhau unrhyw wybodaeth fasnachol sensitif a ddarperir i ni gennych heb ymgynghori â chi ymlaen llaw ond yn y pen draw, penderfyniad Gweinidogion Cymru yng ngoleuni'r holl ofynion cyfreithiol perthnasol yw a ddylid datgelu ai peidio.
7. Drwy wneud cais am y grant hwn, rydych yn cytuno i'r telerau ac amodau hyn. Caiff cytuniad ei ddilysu drwy dicio'r blwch telerau ac amodau ar y ffurflen gais a thrwy gyflwyno'r cais.
8. Noder na fydd unrhyw daliadau'n cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru i'r Cwmni nes eich bod wedi dychwelyd yr holl dystiolaeth ychwanegol sydd ei hangen fel yr amlinellir yn adran 1.
9. Rhaid i unrhyw gyllid a ddyfernir cael ei ddefnyddio at y dibenion y cytunwyd arnynt yn y cais rydych wedi'i gyflwyno, ac yn unrhyw ddogfennau y cyfeiriwyd atynt.
10. Rhaid hawlio'r cyllid erbyn 31 Mawrth 2022.
11. Bydd y Cwmni'n cyflwyno'r holl wybodaeth sy'n berthnasol â'i weithgareddau neu weithgareddau arfaethedig, a'i ddefnydd neu ddefnydd arfaethedig o'r cyllid llawn neu ran o'r cyllid, i Weinidogion Cymru yn ôl yr angen.

12. Mae Gweinidogion Cymru yn gofyn i bawb sy'n derbyn cyllid sicrhau eu bod yn rhoi polisi cyfle cyfartal ar waith fel cyflogwyr, fel defnyddwyr gwirfoddolwyr, ac fel darparwyr gwasanaethau, waeth beth fo'u hil, rhywedd/hunaniaeth rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, oedran neu cyn belled ag y bo'n ymarferol, unrhyw anabled.

13. Bydd gan Weinidogion Cymru hawl i amrywio, atal neu derfynu unrhyw ran o'r cyllid neu'r cyllid llawn a/neu ei gwneud yn ofynnol i ran neu'r o'r cyllid a dalwyd eisoes neu'r cyllid llawn gael ei ad-dalu os:

i. yw'r Cwmni'n methu â chydymffurfio ag unrhyw delerau, amodau neu ddarpariaeth a nodir yn y ddogfen Telerau ac Amodau hon, nodiadau Canllaw'r cais; ii. canfyddir bod unrhyw wybodaeth a ddarperir gan y Cwmni, neu ar ei ran, mewn perthynas â chaffael y cynnig hwn o gyllid neu mewn hawliad talu cyllid yn anghywir neu'n gamarweiniol at raddau y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn bwysig; iii. mae Gweinidogion Cymru yn amau bod y Cwmni a/neu unrhyw un o'i swyddogion yn cymryd rhan mewn gweithgaredd twyllodrus.

14. Caiff Gweinidogion Cymru amrywio a/neu atal unrhyw daliadau cyllid neu'r cyllid yn llawn a/neu ei gwneud yn ofynnol ad-dalu cyllid, ynghyd â llog o ddyddiad y taliad os:

i. oes gofyn iddynt wneud hynny o ganlyniad i benderfyniad gan y Comisiwn Ewropeaidd neu o ganlyniad i unrhyw rwymedigaeth dan Gyfraith y Gymuned; neu

ii. mae'n angenrheidiol, yn eu barn nhw, sicrhau bod y cyllid a ddarperir yn unol â'r llythyr hwn a gymerwyd ynghyd ag unrhyw gyllid arall sydd wedi'i dderbyn neu sy'n debygol o gael ei dderbyn tuag at y Prosiect yn gymorth Gwladwriaethol cyfreithlon.

15. Os caiff y Cwmni ei ddirwyn i ben neu'n cael ei ddiddymu (gan gynnwys bod yn destun unrhyw orchymyn gweinyddu), yn mynd i ddwylo'r derbynydd, methdaliad, yn ymrwymo i unrhyw gyfaddawd neu drefniant arall o'i ddyledion gyda'i gredydwyr neu unrhyw ddigwyddiad tebyg neu sy'n cyfateb i unrhyw un o'r digwyddiadau a ddisgrifir yn y paragraff 15 hwn, bydd gan Weinidogion Cymru hawl i adennill ar gais y Cwmni yr arian a dalwyd ac ni fydd unrhyw arian pellach yn ddyledus nac yn daladwy gan Weinidogion Cymru i'r Cwmni neu i unrhyw un sy'n gweithredu ar ei ran neu yn ei enw. Ystyrir bod unrhyw gyfeiriadau at swm y cyllid a dalwyd neu sydd i'w dalu i'r Cwmni yn golygu ac yn cael ei gyfyngu i swm yr arian a delir i'r Cwmni gan Weinidogion Cymru ar yr adeg y mae unrhyw un o'r digwyddiadau y cyfeirir atynt uchod yn digwydd.

16. Rhaid i'r Cwmni, heb gost, ganiatáu i unrhyw swyddog neu swyddogion Gweinidogion Cymru neu eu cynrychiolwyr, ar unrhyw adeg resymol ymweld â'i safle a/neu archwilio unrhyw un o'i weithgareddau a/neu archwilio'r asedau neu'r eitemau cost prosiect a brynwyd gyda'r cyllid, un ai'n rhannol neu'n llawn, a/neu archwilio a chymryd copïau o lyfrau cyfrif y Cwmni ac unrhyw ddogfennau neu gofnodion eraill y gall swyddogion fod o'r farn eu bod yn ymwneud mewn unrhyw ffordd â defnydd y Cwmni o'r cyllid. Mae'r amod hwn yn rhydd rhag rhagfarn ac yn destun unrhyw hawliau a phwerau statudol eraill sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru neu unrhyw swyddog, gwas neu asiant.

17. Dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru hawliau mynediad helaeth at ddogfennau a gwybodaeth sy'n ymwneud â chyllid a ddarperir gan Weinidogion Cymru. Mae ganddo ef a'i swyddogion y pŵer i'w wneud yn ofynnol i bersonau perthnasol sy'n rheoli neu'n dal dogfennau roi unrhyw gymorth, gwybodaeth ac esboniad y gall fod eu hangen arnynt a'i wneud yn ofynnol i'r personau hynny fod yn bresennol ger eu bron at ddiben o'r fath. Gall yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff arfer yr hawl hwn ar unrhyw adeg resymol.

18. Bydd y Cwmni yn caniatáu i archwilwyr yr UE gael mynediad at ddogfennau a gwybodaeth sy'n ymwneud â chyllid ar gyfer y Prosiect. Rhaid i'r Cwmni sicrhau bod personau sy'n rheoli neu'n dal dogfennau sy'n ymwneud â'r Prosiect yn rhoi unrhyw gymorth, gwybodaeth ac esboniad i archwilwyr yr UE y gall fod eu hangen arnynt.

19. Os yw'r Cwmni'n dod yn ymwybodol o ddirywiad sylweddol yn ei amgylchiadau ariannol yn ystod y flwyddyn ariannol, neu yn ystod yr archwiliad o gyfrifon sy'n ymwneud â'r flwyddyn ariannol honno, rhaid iddo hysbysu ei Swyddog Llywodraeth Cymru ar unwaith.

20. Rhaid i'r Cwmni gydnabod, drwy gynnwys geiriad priodol (ar ddatganiadau i'r wasg) a brandio (ar arwyddion a deunyddiau cyfathrebu a chyhoeddusrwydd), y cyfraniad a wnaed i'w weithgareddau gan Weinidogion Cymru. Dylai'r Cwmni gysylltu â Swyddog Llywodraeth Cymru i gael rhagor o fanylion.

22. Bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud ymdrechion rhesymol i dalu hawliadau'n brydlon, ond nid ydynt yn derbyn unrhyw atebolrwydd mewn perthynas â cholled y gellir ei briodoli i unrhyw oedi wrth dalu hawliadau neu y gellir ei briodoli i unrhyw waharddiad, gostyngiad neu ganslo'r cyllid.

23. Rhaid i chi beidio â defnyddio'r cyllid a ddarperir at ddibenion plaid wleidyddol; (2) hyrwyddo safbwyntiau seciwlar, crefyddol neu wleidyddol penodol; (3) gamblo; (4) pornograffi; (5) cynnig gwasanaethau rhywiol; (6) prynu offer cyfalaf (ac eithrio fel y nodir yn y Dibenion); (7) eich ffioedd cyfreithiol mewn perthynas â'r llythyr hwn; (8) Costau a oedd wedi Codi neu gostau a oedd wedi codi a'u had-dalu gennych chi ac wrth gyflawni'r Dibenion cyn y cyfnod y cyfeirir ato yn Amod 1 (b); (9) unrhyw fath o weithgareddau anghyfreithlon; neu (10) unrhyw fath o weithgaredd arall a allai, yn ein barn ni, ddinistrio ein henw da.

24. Drwy lofnodi'r cais hwn, rydych yn cadarnhau nad oes unrhyw ymglyfreitha na chymrodeddu ar y gweill nac yn yr arfaeth neu, hyd y gwyddoch chi, dan fygythiad, sydd wedi neu a allai gael effaith andwyol ar eich gallu i gyflawni a chydymffurfio ag unrhyw un o'r Amodau nac eich gallu i barhau i fasnachu fel busnes yng Nghymru.

25. Drwy lofnodi'r cais hwn, rydych wedi datgelu'r holl ffeithiau neu amgylchiadau perthnasol y mae angen eu datgelu i ni, er mwyn ein galluogi i gael golwg wir a chywir o'ch busnes a'ch materion (cyfredol ac arfaethedig) neu y dylid eu darparu i unrhyw berson sy'n ystyried darparu cyllid i chi.

26. Drwy lofnodi'r cais hwn, rydych yn cytuno i gydweithredu'n llawn â Swyddog Llywodraeth Cymru a gydag unrhyw weithiwr arall o Lywodraeth Cymru neu ymgynghorydd a benodir gennym i fonitro eich defnydd o'r Cyllid a'ch cydymffurfiaeth â'r Amodau.

27. Rhaid i chi gadw cofnodion cyfrifyddu cyflawn a chywir sy'n nodi'r holl incwm a gwariant mewn perthynas â'r cais rydych wedi'i gyflwyno a heb gost, caniatáu i unrhyw swyddog neu swyddogion o Lywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru neu'r Comisiwn Ewropeaidd neu ei gontractwyr enwebedig, ar unrhyw adeg resymol ac ar rybudd rhesymol (mewn amgylchiadau eithriadol, fel atal neu ganfod twyll, efallai na fydd yn ymarferol rhoi rhybudd rhesymol i chi) ymweld â'ch safle a/neu archwilio unrhyw un o'ch gweithgareddau a/neu archwilio a chymryd copïau o'ch llyfrau cyfrifon ac unrhyw ddogfennau neu gofnodion eraill sut bynnag y'u cedwir fel y'i tybir ym marn resymol y swyddog hwnnw y gallant ymwneud â'ch defnydd o'r Cyllid Grant mewn unrhyw ffordd. Mae'r amod hwn yn rhydd rhag rhagfarn ac yn destun unrhyw hawliau a phwerau statudol eraill sy'n arferadwy gan Lywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru neu'r Comisiwn Ewropeaidd neu unrhyw swyddog, gwas neu asiant o'r unrhyw un uchod.

28. Nid oes unrhyw beth yn yr Amodau sy'n gosod unrhyw atebolrwydd arnom ni mewn perthynas ag unrhyw atebolrwydd a ysgwyddir gennych chi i unrhyw drydydd parti (gan gynnwys, heb gyfyngiad, gweithwyr a chontractwyr).

29. Rhaid i chi ein gwarantu yn erbyn unrhyw rwymedigaethau, hawliadau, gweithrediadau, galwadau, colledion, costau a threuliau a ddiodefir neu a ysgwyddir gennym ni'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o ganlyniad i neu mewn cysylltiad ag unrhyw fethiant gennych chi i gyflawni'n llawn neu'n rhannol unrhyw rwymedigaeth a all fod gennych i drydydd parti.

Swyddfa Archwilio Cymru neu'r Comisiwn Ewropeaidd neu unrhyw swyddog, gwas neu asiant i unrhyw un o'r uchod.

28. Nid oes unrhyw beth yn yr Amodau sy'n gosod unrhyw atebolrwydd arnom ni mewn perthynas ag unrhyw atebolrwydd a ysgwyddir gennych chi i unrhyw drydydd parti (gan gynnwys, heb gyfyngiad, gweithwyr a chontractwyr).

29. Rhaid i chi ein gwarantu yn erbyn unrhyw rwymedigaethau, hawliadau, gweithrediadau, galwadau, colledion, costau a threuliau a ddiodefir neu a ysgwyddir gennym ni'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o ganlyniad i neu mewn cysylltiad ag unrhyw fethiant gennych chi i gyflawni'n llawn neu'n rhannol unrhyw rwymedigaeth a all fod gennych i drydydd parti.

Busnes Cymru – Grant Rhwystrau rhag Dechrau – Hysbysiad Preifatrwydd

Er mwyn cael eich ystyried ar gyfer y Grant Rhwystrau rhag Dechrau a derbyn cymorth gan Busnes Cymru, mae gofyn i Lywodraeth Cymru gasglu gwybodaeth gennych chi. Bydd y wybodaeth hon yn cynnwys gwybodaeth bersonol amdanoch chi, yn ogystal ag ychydig o wybodaeth am eich busnes. Mae cael y wybodaeth bersonol hon yn angenrheidiol er mwyn i ni asesu eich cymhwysedd ar gyfer y Grant ac, os yn llwyddiannus, i gael gafael ar gyllid, gwasanaethau, cyngor a gwybodaeth.

Sail Gyfreithiol ar gyfer Prosesu

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych mewn perthynas â'ch cais am grant. Bydd y wybodaeth yn cael ei phrosesu fel rhan o'n tasg gyhoeddus (h.y. ymarfer ein hawdurdod swyddogol i gyflawni rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru) a bydd yn ein helpu i asesu eich cymhwysedd ar gyfer cyllid. Mae data Categori Arbennig yn cael ei brosesu er budd sylweddol y cyhoedd o gynnig cymorth ariannol i unigolion sy'n wynebu rhwystrau rhag dechrau busnes a'r farchnad gyflogaeth.

Atal Twyll

Cyn i ni gyflwyno cyllid grant i chi, rydym yn cynnal gwiriadau at ddibenion atal twyll a gwyngalchu arian, ac i ddilysu eich hunaniaeth. Mae'r gwiriadau hyn yn gofyn i ni brosesu data personol amdanoch chi i asiantaethau atal twyll trydydd parti.

Os byddwn ni, neu asiantaeth atal twyll, yn penderfynu eich bod yn peri risg o dwyll neu wyngalchu arian, efallai y byddwn yn gwrthod darparu'r cyllid grant rydych wedi gwneud cais amdano, neu efallai y byddwn yn rhoi'r gorau i ddarparu cyllid grant presennol i chi.

Bydd cofnod o unrhyw risg o dwyll neu wyngalchu arian yn cael ei gadw gan asiantaethau atal twyll, ac fe all olygu y bydd eraill yn gwrthod cynnig gwasanaethau, cyllid neu gyflogaeth i chi.

Os nad ydych chi'n llwyddiannus yn eich cais, byddwn yn ysgrifennu atoch yn amlinellu'r rhesymau pam a sut allwch chi ail-ymgeisio am gyllid (Pe baech yn dymuno gwneud hynny).

Mathau o Wybodaeth Bersonol

Mae'r wybodaeth a gesglir yn cynnwys enw, cyfeiriad, gwybodaeth gyswllt, gwybodaeth ariannol bersonol (manylion banc Busnes) a gwybodaeth am eich busnes. I dderbyn cymorth Grant Rhwystrau rhag Dechrau Busnes Cymru, mae gofyn i ni hefyd brosesu gwybodaeth Categori Arbennig ynghylch eich ethnigrwydd neu anabled er mwyn asesu eich cymhwysedd ar gyfer y cynllun. Mae'r data personol yn ymwneud â manylion yr ymgeisydd unigol yn unig.

Pwy fydd yn cael mynediad at eich data

Bydd gweinyddwyr technegol y system, sy'n cefnogi'r system TG, yn gallu gweld yr wybodaeth a gesglir. Ni fydd gweinyddwyr technegol y system yn defnyddio eich manylion mewn unrhyw ffordd.

Rhennir yr wybodaeth a gesglir at ddibenion darparu cymorth Busnes Cymru gyda'r sefydliadau canlynol ar gyfer y dibenion a restrir isod:

- Gan gontractwyr sy'n darparu'r gwasanaeth Busnes Cymru sy'n darparu cymorth i fuddiolwyr;
- Gan sefydliadau ymchwil cymdeithasol cymeradwy, i gynnal ymchwil, dadansoddiad neu fonitro cyfleoedd cyfartal gwasanaeth Busnes Cymru;
- EC (y Comisiwn Ewropeaidd) a Thîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd (EFAT) a fydd yn cymryd samplau o'n data i sicrhau ein bod yn dilyn y prosesau cywir.

Yr hyn a wnawn gyda'r data

- I fonitro ac adrodd ar y nifer o unigolion a mentrau sy'n cymryd rhan mewn prosiectau a'r nifer o bobl o grwpiau gwahanol a gefnogir (e.e. oedrannau gwahanol, rhywiau ac ethnigrwydd).
- Noder mai dim ond sampl o unigolion a/neu fentrau fydd sefydliadau/gwerthuswyr yn cysylltu â nhw. Os cysylltir â chi i gymryd rhan mewn unrhyw ymchwil/gwerthusiad am eich profiad o'r prosiect, bydd diben y cyfweiliad neu'r arolwg yn cael ei egluro i chi a byddwch yn cael yr opsiwn i ddweud ie neu na i gymryd rhan. Dim ond at ymchwil cymeradwy y bydd eich manylion cyswllt yn cael eu defnyddio a byddant yn cael eu dileu unwaith y bydd yr ymchwil cymeradwy hwn wedi cael ei gwblhau.

Am ba mor hir y cedwir eich manylion

Mae gofyn i ni o dan ddeddfwriaeth cymorth gwladwriaethol i gadw eich data personol am isafswm o 10 mlynedd ar ôl i'r prosiect ddod i ben, ac ar ôl y cyfnod hwnnw bydd yn cael ei ddinistrio'n ddiogel. Os nad yw eich cais yn llwyddiannus, bydd eich gwybodaeth bersonol a oedd wedi'i chynnwys yn y cais hwnnw'n cael ei chadw am gyfnod o 12 mis, yn unol â pholisi cadw gwybodaeth Llywodraeth Cymru.

Eich hawliau

Dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i gael mynediad i'r data personol y mae Llywodraeth Cymru yn ei gadw amdanoch;
- gofyn i ni gywiro gwallau yn y data hwnnw;
- i wrthwynebu i brosesu neu gyfyngu ar brosesu (dan amgylchiadau penodol);
- i fynnu bod eich data yn cael ei 'ddileu' (o dan amgylchiadau penodol);
- i gofnodi cwyn gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

Y manylion cyswllt ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Cyswllt Cwsmer

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire

SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 or 0303 123 1113

Gwefan: www.ico.org.uk

I gael cymorth gydag unrhyw rai o'r hawliau uchod, cysylltwch â'n Llinell Gymorth Busnes Cymru **03000 6 03000** neu defnyddiwch y ffurflen cysylltu â ni <https://businesswales.gov.wales/cy/cysylltwch-a-ni>

Deddf Rhyddid Gwybodaeth a'ch Gwybodaeth

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn rhoi'r hawl i'r cyhoedd gael mynediad at wybodaeth sydd yn cael ei dal gan gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Gall yr wybodaeth a ddarperir gennych fod yn destun cais rhyddid gwybodaeth gan aelod arall o'r cyhoedd. Byddem yn cysylltu â chi i geisio eich barn cyn ymateb i gais o'r fath.

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â'ch hawliau gwybodaeth

Swyddog Diogelu Data

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays, CAERDYDD

CF10 3NQ

Cyfeiriad e-bost: DataProtectionOfficer@gov.wales